



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Chanllawiau - Drafft

Dyddiad cyhoeddi: 30 Mai 2019

Camau gweithredu sydd eu hangen: Ymatebion erbyn 2 Medi 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Chanllawiau - Drafft

Trosolwg Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am farn ar Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a'r Canllawiau drafft sydd wedi'u hamserlennu i'w gosod ym mis Rhagfyr 2019. Mae'r rheoliadau hyn yn amlinellu'r dyletswyddau statudol sy'n deillio o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg.

Sut i ymateb Dylech e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i'r cyfeiriad isod a dylent gyrraedd erbyn 2 Medi 2019 ar yr hwyraf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr (2017)
Adolygiad Brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-20 (2017)
Gwella'r Broses Cynllunio Addysg Gymraeg – Argymhellion y Bwrdd Cynghori Strategol y Gymraeg Mewn Addysg (2019)

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Is-adran y Gymraeg
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ebst:

UnedaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru



@LIC_Addysg



Facebook/AddysgCymru

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymerir â gwaith o'r fath dim ond o dan gontract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw neu'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ

e-bost:

Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r
Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

Cynnwys

1. Cyflwyniad – y ddeddfwriaeth	6
2. Yr Achos dros Newid	7
3. Pa newidiadau penodol rydym yn cynnig eu gweithredu o dan Reoliadau 2019?	
Cynnig 1	9
Y sefyllfa ar hyn o bryd	
Pam rydym yn cynnig y newid hwn?	
Cynnig 2	11
Y sefyllfa ar hyn o bryd	
Pam rydym yn cynnig y newid hwn?	
Y targed 10 mlynedd - Ein disgwyliad	
Methodoleg y Canllawiau Statudol ar gyfer cyfrifo targedau	
Cynnig 3	14
Y sefyllfa ar hyn o bryd	
Pam rydym yn cynnig y newid hwn?	
Cynnig 4	15
Y sefyllfa ar hyn o bryd	
Pam rydym yn cynnig y newid hwn?	
4. Asesiadau Effaith (gan gynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol)	18

1. Cyflwyniad – Y Ddeddfwriaeth

- 1.1 Mae adran 84 o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013¹ ("Deddf 2013") yn rhoi dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i baratoi Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ("Cynllun").
- 1.2 Mae adran 85 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno ei Gynllun i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo. Caiff Gweinidogion Cymru:
- gymeradwyo'r Cynllun fel y'i cyflwynwyd,
 - cymeradwyo'r Cynllun gydag addasiadau, neu
 - wrthod y Cynllun a pharatoi Cynllun arall a fydd yn cael ei drin fel Cynllun cymeradwy'r awdurdod
- 1.3 Mae is-adran (6) o adran 85 yn gosod dyletswydd ar awdurdod lleol i gymryd pob cam rhesymol i weithredu ei Gynllun a gymeradwywyd.
- 1.4 Mae adran 87 o Ddeddf 2013 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaethau pellach ar faterion megis ffurf a chynnwys Cynllun, ei amseriad a'i barhad, yr angen i adolygu'r Cynllun, ymgynghori a chyflwyno'r Cynllun i'w gymeradwyo gan Weinidogion Cymru a'i gyhoeddi. Mae'r adran hon hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru lunio canllawiau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu hystyried wrth arfer eu swyddogaethau.
- 1.5 *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013*² ("Rheoliadau 2013 ") oedd y rheoliadau cyntaf i'w gwneud o dan bwerau adran 87. Mae'r rhain, ynghyd â Deddf 2013, yn gosod fframwaith statudol i gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg gan awdurdodau lleol. Roedd y Cynlluniau statudol cyntaf yn ymdrin â'r tair mlynedd cyntaf rhwng 2014 a 2017. Rydym bellach yn yr ail gyfnod sy'n pontio 2017-2020.
- 1.6 Cynllunio rheoliadau 2013 roedd cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei yrru gan Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg 2010. Roedd y strategaeth honno yn gyfrifol am bennu'r cyfeiriad strategol cenedlaethol ar gyfer cynllunio addysg cyfrwng Cymraeg rhwng 2010 a 2015. Roedd y Cynlluniau'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol adrodd ar gynnydd yn erbyn deilliannau targedau cenedlaethol strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg 2010. Mae hyn yn parhau i fod yn wir hyd yma. Mae deilliannau'r targedau hyn yn cynnwys:

¹ <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/1/contents>

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2013/3048/contents/made/welsh>

- mwy o blant 7 oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg fel canran o gohort blwyddyn 2;
- mwy o ddysgwyr yn parhau i wella'u sgiliau iaith wrth bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd;
- mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg;
- mwy o ddysgwyr 16 - 19 oed yn astudio Cymraeg a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg; a
- mwy o ddysgwyr â sgiliau gwell yn y Gymraeg.

2. Yr Achos dros Newid

- 2.1 Daeth gwerthusiad o'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn 2016³ i'r casgliad bod gwneud y Cynlluniau'n rhai statudol wedi gwella'r gwaith o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg yn yr ystyr eu bod yn galluogi awdurdodau lleol i gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg o fewn fframwaith strwythuredig. Serch hynny, daeth yr ymchwiliad gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Cynulliad yn 2015⁴ a hefyd adolygiad thematig o Gynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg gan Estyn yn 2016⁵ i gasgliadau tebyg, sef nad oedd y Cynlluniau wedi'u halinio'n ddigon da â gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.
- 2.2 Roedd Adolygiad Brys o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2017-2020⁶, a gomisiynwyd yn 2017 yn cydnabod yr angen am newid, nid yn unig o ran uchelgeisiau Cynlluniau awdurdodau lleol unigol ond hefyd o ran y fframwaith deddfwriaethol a amlinellwyd gan y Llywodraeth. Roedd yr adolygiad yn pwysleisio'r angen i newid y rheoliadau a'r canllawiau sy'n deillio o'r ddeddfwriaeth er mwyn cryfhau cyfrifoldebau a disgwyliadau awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill.
- 2.3 Sefydlwyd Bwrdd Cyngori annibynnol rhwng Mai 2018 a Mawrth 2019 i ystyried y newidiadau sydd eu hangen i *Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013* ("Rheoliadau 2013"), yng nghyd-destun argymhellion yr Adolygiad Brys a'r datblygiadau polisi ehangach a nodir isod. Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried eu hargymhellion yn llawn wrth baratoi y Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 drafft ("y Rheoliadau 2019 drafft")

³ <https://gweddi.gov.wales/docs/caecd/research/2016/160310-evaluation-welsh-medium-education-strategy-final-summary-cy.pdf>

⁴ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/cr-ld10475/cr-ld10475-w.pdf>

⁵ <https://www.estyn.llyw.cymru/adroddiadau-thematig/cynlluniau-strategol-cymraeg-mewn-addysg-awdurdodau-leol>

⁶ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/adolygiad-brys-o-gynlluniau-strategol-y-gymraeg-mewn-addysg-2017-20.pdf>

- 2.4 Cyhoeddwyd strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr⁷, ym mis Awst 2017. Targedau cyffredinol y strategaeth hon yw:
- Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
 - Canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg, i gynyddu o 10 y cant (yn 2013–15) i 20 y cant erbyn 2050
- 2.5 Mae angen 438,000 o siaradwyr Cymraeg ychwanegol i gyrraedd y targed o filiwn erbyn 2050. Er na fydd yr holl siaradwyr newydd sydd eu hangen yn dod o'r sector addysg statudol, mae angen gwneud newidiadau trawsnewidiol i sicrhau bod y sector yn cyfrannu cymaint ag y sy'n bosibl i gyrraedd y targed. Mae'n rhaid bod cynnydd sylweddol yn nifer y disgyblion ysgol sy'n cael y cyfle i ddatblygu sgiliau Cymraeg yn yr ysgol a'r cyfle i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.
- 2.6 Mae strategaeth Cymraeg 2050 yn nodi mai addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw ein prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd.
- 2.7 Mae hefyd angen cynyddu nifer y dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a dwyieithog sy'n dysgu Cymraeg yn llwyddiannus. Bydd hyn yn rhan annatod o'r cwricwlwm newydd a fydd yn cynnwys un continwmm ar gyfer dysgu Cymraeg. Y nod drwy'r cwricwlwm newydd yw annog cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus yn y system addysg statudol, a sicrhau y bydd pob dysgwr yn y dyfodol yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar ôl gadael yr ysgol.
- 2.8 O ystyried yr uchod, daeth y Bwrdd i'r casgliad nad yw'r strwythur presennol sy'n cynnal y gwaith cynllunio statudol ar gyfer darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg drwy Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn cefnogi'r uchelgais hirdymor ar gyfer yr iaith Gymraeg bellach. Felly, mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ar y Rheoliadau 2019 drafft, a fydd yn disodli Rheoliadau 2013, a'r Canllawiau Statudol, fel bod fframwaith ar gyfer cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn gyson â'r disgwyliadau o ran twf ar hyn o bryd ac at y dyfodol.

⁷ <http://www.assembly.wales/laid%20documents/gen-ld11108/gen-ld11108-w.pdf>

3. Pa newidiadau penodol rydym yn cynnig eu gweithredu o dan Reoliadau 2019?

- 3.1 Yn ymarferol, rydym am i'r Cynlluniau arddangos ymrwymiad a chyfraniad awdurdodau lleol i'r targedau a amlinellir yn strategaeth *Cymraeg 2050*. O ystyried sgôp yr ymgynghoriad hwn, y targedau mwyaf perthnasol fyddai carreg filltir 2031 i gynyddu'r gyfran o bob grŵp blwyddyn ysgol sy'n cael addysg cyfrwng Cymraeg o 22% (yn seiliedig ar 7,700 o ddysgwyr saith oed yn 2015/16) i 30% (tua 10,500 ym mhob grŵp blwyddyn) erbyn 2031.
- 3.2 Rydym hefyd am i'r Cynlluniau ddangos sut mae awdurdodau lleol yn cefnogi diwygiadau i'r cwricwlwm. Un o'r diwygiadau allweddol yw newid y ffordd y mae'r Gymraeg yn cael ei haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion sy'n darparu cyfran o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd hyn yn ei dro yn cefnogi'r targed yn *Cymraeg 2050* i sicrhau bod o leiaf 70% o'n holl ddysgwyr yn adrodd erbyn 2050 eu bod yn gallu siarad Cymraeg erbyn iddynt adael yr ysgol. Bydd angen datblygu targedau yn y maes hwn ar y cyd â datblygu'r cwricwlwm newydd.

Cynnig 1: Estyn hyd Cynllun o'i gylch gweithredu cyfredol o 3 blynedd i 10 mlynedd. Cyflwynir y newid hwn gan Reoliad 4 o'r rheoliadau drafft

Y sefyllfa ar hyn o bryd:

- 3.3 Cyn gweithredu Rheoliadau 2013, roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi bod yn defnyddio'i bwerau o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau baratoi a chytuno ar Gynllun Addysg Gymraeg. Paratowyd y Cynlluniau hyn yn ychwanegol at Gynlluniau Iaith Gymraeg awdurdodau lleol. Roedd y ddau gynllun yn dilyn cylch 3 blynedd.
- 3.4 Mae'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg cyfredol yn ymdrin â'r cyfnod rhwng Mawrth 2017 a Mawrth 2020. Dan reoliadau 2013, mae gofyn cyflwyno Cynlluniau drafft ar gyfer y 3 mlynedd nesaf i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt eu cymeradwyo yn ystod mis Rhagfyr y flwyddyn y mae'r Cynlluniau blaenorol i fod i ddod i ben.

Pam rydym yn cynnig y newid hwn?

- 3.5 Argymhellodd Adolygiad Brys o'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg y dylai cyfnod gweithredu'r Cynlluniau gael ei ymestyn i gyd-fynd â chynlluniau cyllid cyfalaf Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae'r Cyfrifiad, sef ein ffynhonnell ddata fwyaf dibynadwy o hyd i asesu cyflwr y Gymraeg a'n prif ddangosydd cynnydd yn erbyn strategaeth *Cymraeg 2050*, yn cael ei gynnal bob 10 mlynedd. Mae ystyriaethau cynllunio eraill sy'n berthnasol i'r Cynlluniau, fel yr Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant sy'n ofynnol dan Ddeddf Gofal Plant 2006 a chynlluniau datblygu unigol (CDU) ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a gyflwynwyd gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn cael eu hadolygu bob 5 mlynedd.
- 3.6 Dylai'r Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg arwain at gynllunio'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn well a chynyddu y nifer sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, mae cynllunio effeithiol yn gallu cymryd sawl blwyddyn i ddwyn ffrwyth, yn aml y tu hwnt i gyfnod 3 blynedd y Cynllun presennol. Credwn y byddai newid i gynllun 10 mlynedd yn annog cynllunio tymor hir mwy ystyrlon ac uchelgeisiol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.
- 3.7 Rydym yn cynnig bod y Cynlluniau yn weithredol o 1 Medi 2021 tan 31 Awst 2031 (ar gyfer y Cynllun cyntaf). Bydd yr amserlen hon yn sicrhau cysondeb â'r garreg filltir yn 2031 o fewn *Cymraeg 2050*. Mae'r Rheoliadau drafft hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer amgylchiad petai Gweinidogion Cymru, am ba reswm bynnag, yn teimlo na allant gymeradwyo Cynllun erbyn 1 Medi. Gwneir

darpariaethau sy'n galluogi cyfnod o 1 mis ychwanegol i gymeradwyo Cynllun. Fodd bynnag, bydd y Cynllun yn dal i orffen ar yr un pryd (31 Awst 2031) fel yr holl gynlluniau hynny sy'n effeithiol o 1 Medi.

- 3.8 Mae'n debygol y bydd symud o'r cynllun 3 blynedd i gynllun 10 mlynedd yn gofyn i awdurdod lleol ystyried ymgynghori â mwy o unigolion a sefydliadau dros gyfnod hwy o amser wrth baratoi Cynllun newydd. Rydym am sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi i awdurdodau baratoi eu Cynlluniau newydd o dan y trefniadau arfaethedig ac felly rydym yn cynnig y dylai'r cylch nesaf o Gynlluniau ddechrau yn 2021 yn hytrach na 2020. Bydd y Cynlluniau presennol ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2020 yn parhau'n weithredol hyd nes y cymeradwyir y Cynlluniau newydd. Yr hyn y mae hyn yn ei olygu yw y byddai'n dal i fod angen i awdurdodau lleol weithredu eu Cynlluniau 2017-2020 tan 31 Awst 2021, ac y byddai'r 1af o Fedi 2021 yn nodi dechrau'r amserlen 10 mlynedd newydd ar gyfer y Cynlluniau. Ymdrinnir â'r trefniadau newydd hyn drwy gyflwyno darpariaeth drosiannol yn Rheoliadau 2019 (Rheoliad 11).

Cwestiwn 1:

Hoffem wybod eich barn ar y cynigion canlynol i:

- (a) ymestyn cyfnod gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i 10 mlynedd
- (b) cychwyn y Cynllun nesaf yn 2021 a nodi cynnydd yn ôl y flwyddyn ysgol academaidd?

Cynnig 2: Dileu'r ddyletswydd bresennol ar awdurdodau lleol i gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ganlyniadau asesiad o'r galw ymysg rhieni (fel y nodir yn Atodlen 1 o Reoliadau 2013).

Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol bennu eu targedau eu hunain yn eu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a chynnwys darpariaeth yn y rheoliadau sy'n mynnu bod awdurdodau lleol yn rhoi sylw dyledus i ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth bennu eu targedau.

Y sefyllfa ar hyn o bryd:

- 3.9 Mae Rheoliadau 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol asesu'r galw ymysg rhieni am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg (Rheoliad 3(1)(a-c)). Mae'r Rheoliadau yn pennu hefyd sut dylai awdurdod lleol gynnal asesiad o'r galw. Mae manylion y ddwy ddarpariaeth hyn yn Atodlen 1 Rheoliadau 2013 ac maent yn cynnwys cwestiynau y mae'n rhaid eu cynnwys mewn asesiad o addysg cyfrwng Cymraeg (rhan 1) a gwybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys mewn asesiad o addysg cyfrwng Cymraeg (rhan 2).

Pam rydym yn cynnig y newid hwn?

- 3.10 Ers cyflwyno Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn 2014, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi cynnal o leiaf un asesiad o'r galw ymysg rhieni. Bwriad yr asesiadau yn wreiddiol oedd rhoi cyfeiriad a gwell dealltwriaeth i awdurdodau lleol ynghylch pa ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg oedd ei hangen, ym mhle ac erbyn pryd. Serch hynny, gellid dadlau nad yw asesiadau o'r galw ymysg rhieni wedi arwain, ar y cyfan, at welliannau sylweddol yn y modd y mae awdurdodau lleol yn cynllunio eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Oherwydd y tueddiad ymhlith y rhan fwyaf o awdurdodau lleol i gynnal asesiad unwaith bob tair blynedd, maent yn dyddio'n gyflym iawn, ac o'r herwydd, nid ydynt yn adlewyrchu'r newidiadau ieithyddol a welir mewn rhai cymunedau sy'n newid yn gyflym.
- 3.11 At hyn, am y tro cyntaf mae gennym strategaeth genedlaethol sydd â tharged clir ac uchelgeisiol - cyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae symud i ffwrd oddi wrth fesur y galw i greu'r galw a chynyddu'r nifer o lefydd sydd ar gael mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg yn dyngedfennol i gyrraedd targedau'r strategaeth. Mae *Cymraeg 2050* yn cydnabod yr angen i yrru newid ac yn pwysleisio'r angen i fod yn rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol. Mae'r Rheoliadau drafft yn ymateb i'r her yma.

Y targed 10 mlynedd - Ein disgwyliad

- 3.12 Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys eu targedau eu hunain yn y Cynlluniau sy'n amlinellu'r cynnydd canrannol disgwylidig ymhlith dysgwyr blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg gan yr awdurdod lleol yn ystod oes y Cynllun. Byddai Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol osod uchelgais i'w hunain dros gyfnod o 10 mlynedd a chynllunio eu darpariaeth addysg Gymraeg ar sail un targed clir. Byddai angen i'r targed adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y dysgwyr oedran ysgol, o gael y cyfle i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg, fyddai ei hangen ar bob awdurdod lleol i gyfrannu at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- 3.13 Ers cyhoeddi Cymraeg 2050, mae awdurdodau lleol wedi galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyfeiriad ac arweiniad clir o ran y cyfraniad disgwylidig fyddai arnynt i gyfrannu at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'r fethodoleg arfaethedig a amlinellir yn y ddogfen ganllaw statudol (Atodiad 1) yn dangos cysylltiad clir rhwng targedau unigol fesul ardal ac uchelgais *Cymraeg 2050*.
- 3.14 Byddai Gweinidogion Cymru yn disgwyl i awdurdodau lleol gyfrifo'r targed 10 mlynedd hwn yn unol â'r fethodoleg a amlinellir yng nghanllawiau statudol drafft Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, y mae'n rhaid i awdurdod roi sylw dyledus iddi.

Methodoleg y Canllawiau Statudol ar gyfer cyfrifo targedau

- 3.15 Gall gofyn i awdurdodau lleol bennu eu targedau eu hunain yn eu Cynlluniau arwain at heriau gwahanol i rai awdurdodau lleol. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd angen i rai awdurdodau, yn enwedig y rhai sy'n debygol o weld twf yn eu poblogaeth, ystyried o'r newydd sut y gallant ddarparu cyfleoedd i gynyddu nifer y dysgwyr oedran ysgol yn eu hawdurdodau sy'n dymuno mynediad i ddarpariaeth addysg Gymraeg. Efallai y bydd yr ystyriaethau hyn yn cynnwys modelau neu ddulliau newydd ar gyfer darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, mae man cychwyn pob awdurdod lleol o ran ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn amrywio'n sylweddol o un ardal i'r llall. Mewn rhai rhannau o Gymru mae'r cyfan bron (hyd at 98%) o'r ddarpariaeth addysg gynradd hyd at ddiwedd y cyfnod sylfaen yn cael ei haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, ond mewn ardaloedd eraill mae'n anoddach cael mynediad at ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg (llai na 10%).
- 3.16 Dyma'r rheswm pam y mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno methodoleg ar gyfer cyfrifo targedau yn y canllawiau statudol. Mae'r fethodoleg yn gydnaws â cherrig milltir *Cymraeg 2050* sy'n ymwneud â'r cynnydd sydd ei angen yn nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr erbyn 2050. Mae'r cyfrifiadau yn seiliedig ar nifer y dysgwyr blwyddyn 1 sy'n cael eu

haddysgu yn Gymraeg yn ôl casgliad data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD).

- 3.17 Mae'r fethodoleg arfaethedig yn ystyried yr amrywiaeth o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg ledled Cymru drwy gyflwyno system grwpiau. Mae'r ffactorau a ystyriwyd wrth grwpio awdurdodau lleol yn cynnwys: canran y dysgwyr a aseswyd yn y Gymraeg; y modelau o ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a fabwysiadwyd gan yr awdurdod; a natur ieithyddol awdurdod lleol. Mae hyn yn egluro pam y gallai rhai awdurdodau lleol fod wedi'u gosod mewn un grŵp er bod eu canran sylfaenol o ddysgwyr blwyddyn 1 cafodd eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2017/18 yn uwch na rhai o'r awdurdodau lleol o fewn grŵp arall.
- 3.18 Ystyrir y dull hwn yn decach am ei fod yn cydnabod yr heriau gwahanol sy'n wynebu'r 22 awdurdod lleol. Mae'n ei gwneud yn amlwg hefyd i'r holl awdurdodau lleol beth, ym marn Gweinidogion Cymru, y dylent ei gyfrannu yn yr ymdrech i gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- 3.19 O fewn y fethodoleg a gyflwynir yn y canllawiau, cynigir bod gan bob grŵp o awdurdodau lleol darged i gynyddu canran y dysgwyr blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl amrediad penodol o gynnydd mewn pwyntiau canran, yn seiliedig ar y ddarpariaeth ym mhob awdurdod lleol gan ddefnyddio data 2017/18 fel man cychwyn. Mae ychwanegu targedau o fewn ystod is ac uwch, yn ogystal â grwpio ardaloedd yn ôl eu darpariaeth bresennol yn cydnabod ymhellach y bydd y man cychwyn ar gyfer pob awdurdod yn wahanol ac y bydd llwybr pob awdurdod tuag at gyrraedd y targedau hynny yn amrywio.

Cwestiwn 2 :

Hoffem wybod eich barn ar y cynigion canlynol i:

- (a) ddileu'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ganlyniadau asesiad o'r galw ymysg rhieni?
- (b) disodli'r ddyletswydd hon â darpariaeth newydd yn y rheoliadau i awdurdodau lleol osod eu targedau eu hunain yn eu Cynlluniau i gynyddu canran y dysgwyr blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg?
- (c) ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth bennu'r targedau sydd i'w cynnwys mewn Cynllun awdurdod lleol?

Cynnig 3: Darpariaethau newydd i ymdrin â materion y mae'n rhaid ymdrin â hwy mewn Cynllun (Rheoliad 5)

Y sefyllfa ar hyn o bryd:

- 3.20 Ar hyn o bryd mae Rheoliadau 2013 yn nodi pa faterion y mae angen ymdrin â hwy mewn Cynllun drwy nodi 25 o ddatganiadau y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu cynnwys mewn Cynllun. Mae Atodlen 3 Rheoliadau 2013 hefyd yn nodi pa wybodaeth ategol (gan gynnwys data) y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei chynnwys yn eu Cynllun i gyd-fynd â'r datganiadau.
- 3.21 Ystyriodd y Bwrdd Cyngori yr argymhellion a gyflwynwyd yn yr Adolygiad Brys o Gynlluniau 2017-20 yng nghyd-destun Rheoliadau cyfredol 2013. Er na ellid ystyried pob un o'r argymhellion o fewn cwmpas y Rheoliadau 2019 drafft, daeth yn amlwg nad oedd sawl datganiad bellach yn cefnogi polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer y twf mewn darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg fel yr amlinellir yn strategaeth *Cymraeg 2050*.

Pam rydym yn cynnig y newid hwn?

- 3.22 Rydym wedi adolygu'r holl ddatganiadau yn Rheoliadau presennol 2013 ac wedi penderfynu, o dan Reoliadau drafft 2019, y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnwys 19 o ddatganiadau yn eu Cynlluniau strategol Cymraeg mewn Addysg. Er bod rhai datganiadau o Reoliadau 2013 wedi'u dileu, mae eraill wedi'u cyfuno ac mae datganiadau newydd wedi'u cyflwyno. Dyma rai o'r datganiadau newydd y bydd yn ofynnol i awdurdodau lleol eu cynnwys yn eu Cynlluniau o dan Reoliadau 2019:
- Datganiadau newydd sy'n ymdrin yn benodol â chyflwyno targedau 10 mlynedd
 - Gofyniad o ran defnyddio data asesiadau digonolrwydd gofal plant i lywio'r broses o gynllunio'n gynnar y ddarpariaeth feithrin cyfrwng Cymraeg a gynhelir
 - Gofyniad i ystyried sut y bydd yn cynyddu nifer y dysgwyr oedran dosbarth derbyn sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg
 - Mwy o bwyslais ar gydweithredu a gwaith partneriaeth gydag awdurdodau lleol eraill a sefydliadau rhanbarthol eraill ee y consortia addysg
- 3.23 Wrth ddrafftio Rheoliadau 2019, rhoddwyd ystyriaeth i gynigion sy'n ymwneud â diwygio'r Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae Papur Gwyn y Bil Cwricwlwm ac Asesu yn cynnig dileu rhaglenni astudio Cymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith, gan gyflwyno un continwrm dysgu yn lle hynny. Mae'n bosib y bydd angen cyflwyno

newid i'r gofynion asesu dros amser. Ynghyd â hyn, mae rheoliadau newydd (*Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018*) sy'n ymwneud â chyhoeddi data asesiadau athrawon wedi dod i rym. Mae'r Rheoliadau diwygiedig yn gwahardd Llywodraeth Cymru rhag cyhoeddi data asesiadau athrawon ar lefel leol.

- 3.24 Rydym am sicrhau bod Rheoliadau drafft 2019 yn parhau mor berthnasol â phosibl, yn ogystal â bod yn ddigon hyblyg i amsugno'r nifer fawr o newidiadau a allai effeithio ar gynnwys y Cynlluniau dros y blynyddoedd nesaf. Am y rhesymau hyn, nid ydym yn cynnig nodi yn Rheoliadau 2019 pa wybodaeth ategol y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei chynnwys yn eu Cynlluniau. Yn hytrach, byddwn yn nodi'r wybodaeth ategol y dylid ei chynnwys yng Nghynllun yr awdurdod lleol yn y canllawiau statudol.

Cwestiwn 3:

Hoffem wybod eich barn ar:

(a) y datganiadau newydd sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019?

(b) canllawiau statudol sy'n nodi pa wybodaeth ategol y dylai awdurdodau lleol ei chynnwys yn eu Cynllun

Cynnig 4: Darpariaeth newydd mewn perthynas ag adolygu a diwygio Cynllun (Rheoliad 6)

Y sefyllfa ar hyn o bryd:

3.25 Dan adran 84 o Ddeddf 2013, mae'n ddyletswydd ar bob awdurdod lleol i baratoi Cynllun, ei adolygu'n gyson a'i ddiwygio os bydd angen. Ar hyn o bryd, mae rheoliad 10 o Reoliadau 2013 yn nodi'r dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid adolygu a diwygio'r Cynllun. Pan ddaw'n fater o adolygu'r Cynllun, mae adran 84 o Ddeddf 2013 a rheoliad 10 o Rheoliadau 2013 wedi'u dehongli yn y fath fodd fel bod awdurdodau lleol wedi cyflwyno Cynllun diwygiedig llawn i Weinidogion Cymru yn flynyddol. Fel arfer, ymgynghorir ar y Cynllun diwygiedig hwn a'i ail-gyhoeddi bob blwyddyn. Mantais y dull hwn yw bod cynnwys y Cynllun ei hun yn parhau i fod yn gyfredol. Fodd bynnag, er mwyn dadansoddi cynnydd yn gywir o un flwyddyn i'r llall, rhaid asesu'r Cynllun blaenorol a'r Cynllun newydd ochr yn ochr. Mae hyn nid yn unig yn gwneud monitro cynnydd yn her, mae hefyd yn ddefnydd aneffeithiol o adnoddau. Yn ein barn ni, nid oes fawr ddim i'w ennill o'r broses hon gan ei bod ond yn lleihau'r amser a dreulir gan awdurdod lleol yn rhoi camau gweithredu ei Gynllun ar waith.

Pam rydym yn cynnig y newid hwn?

3.26 Er mwyn sicrhau proses adolygu fwy cymesur a thryloyw, rydym yn cynnig cyflwyno gofyniad i awdurdodau lleol adolygu eu Cynlluniau'n flynyddol drwy gyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol i Weinidogion Cymru. Gellid cynnwys templed adroddiad yn y canllawiau drafft pe bai angen. Dylai'r adolygiad o gynnydd (fel y cyfeirir ato yn rheoliad 7(a) fod yn broses barhaus, a ddilynir ochr yn ochr â rhanddeiliaid sy'n rhan o Fforwm Cynllunio'r Gymraeg mewn Addysg. Dylai'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn adroddiad cynnydd blynyddol awdurdod lleol fod yn grynoded cryno o'r cynnydd yn erbyn y targed 10 mlynedd. Cynigiwyd eisoes roi mwy o bwyslais ar sicrhau bod aelodau fforwm Cynllunio Cymraeg mewn addysg yr awdurdod lleol yn cael eu cynnwys yn y broses o ddrafftio a gweithredu'r Cynllun. Mae hyn, yn ein barn ni, yn cynyddu atebolrwydd ac yn darparu dull mwy cadarn ac effeithiol o fonitro Cynllun.

3.27 Fodd bynnag, os tybir bod cynnydd yn erbyn y targed 10 mlynedd yn annigonol, gallai sbarduno penderfyniad gan yr awdurdod lleol i gyflwyno Cynllun diwygiedig. Byddai adborth Llywodraeth Cymru yn dilyn adroddiad blynyddol yr awdurdod lleol yn dylanwadu'n gryf ar benderfyniad awdurdod lleol i gyflwyno Cynllun diwygiedig. Gallai hyn ddigwydd ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod 10 mlynedd y Cynllun. Ymhlith sbardunau eraill i ddiwygio'r Cynllun fyddai ffactorau fel cynnydd sydyn annisgwyl yn nhwf y boblogaeth gan ychwanegu at y pwysau ar drefniadaeth ysgolion neu gyfyngiadau cyllidebol eraill.

3.28 Mae Rheoliadau drafft 2019 yn nodi'r amserlen y mae'n rhaid i awdurdod lleol gadw ati wrth gyflwyno Cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru i'w chymeradwyo os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod angen iddo ddiwygio Cynllun. Amlinellir y math o amgylchiadau a allai arwain awdurdod lleol i benderfynu bod angen diwygio'r Cynllun yn y canllawiau drafft.

Cwestiwn 4:

Hoffem wybod eich barn ar y cynigion canlynol:

(a) ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu eu Cynlluniau bob blwyddyn a chyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol i Weinidogion Cymru yn seiliedig ar yr adolygiad?

(b) y gofyniad i awdurdodau lleol gyflwyno eu Cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo o fewn 4 mis i'r adolygiad os yw'r awdurdod lleol yn barnu ei bod yn angenrheidiol diwygio'r Cynllun?

Cwestiwn 5:

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar reoliadau drafft 2019 a'r canllawiau statudol?

Asesiadau Effaith (gan gynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol)

Mae'r Asesiad Effaith Integredig, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft, sy'n cyd-fynd â'r ymgynghoriad hwn, yn dangos camau cynnar y broses o nodi'r effaith bosibl y gallai'r newidiadau arfaethedig hyn ei chael ar awdurdodau lleol a rhanddeiliaid perthnasol eraill. Rydym yn croesawu barn ar sut i roi mwy o gefnogaeth i'r broses arfarnu hon.

Cwestiwn 6:

Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol?
Ydych chi'n credu bod yna rhywbeth arall y dylem roi sylw iddo?

Cwestiwn 7:

Ydych chi'n cytuno â'n dull gweithredu ar gyfer yr Asesiadau Effaith? Byddem yn falch o glywed eich safbwynt, yn benodol, ar yr effeithiau tebygol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Chanllawiau - Drafft

Dychwelwch y ffurflen hon at Lywodraeth Cymru erbyn **2 Medi 2019** fan bellaf.

Y cyfeiriad e-bost ar gyfer ymatebion ac ymholiadau yw:

UnedlaithGymraegWelshLanguageUnit@llyw.cymru

Dyma'r cyfeiriad ar gyfer anfon ymatebion drwy'r post:

Ymgynghoriad ar Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg
Is-adran y Gymraeg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Mae'r ffurflen hon ar gael i'w lawrlwytho o wefan ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru, yma: llyw.cymru/ymgynghoriadau


Eich enw:	
Sefydliad (os yn briodol):	
Cyfeiriad e-bost:	
Rhif ffôn:	
Eich cyfeiriad:	

Mae'n bosibl y cyhoeddir ymatebion i ymgynghoriadau ar y we neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddiennw, ticiwch y blwch hwn:

Cwestiwn 1 – Hoffem wybod eich barn ar y cynigion canlynol i:

- (a) ymestyn cyfnod gweithredu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i 10 mlynedd
- (b) Cychwyn y Cynllun nesaf yn 2021 a nodi cynnydd yn ôl y flwyddyn ysgol academaidd

Sylwadau ategol



Cwestiwn 2 – Hoffem wybod eich barn ar y cynigion canlynol i:

- (a) dileu'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio eu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn seiliedig ar ganlyniadau asesiad o'r galw ymysg rhieni
- (b) disodli'r ddyletswydd hon â darpariaeth newydd yn y rheoliadau i awdurdodau lleol osod eu targedau eu hunain yn eu Cynlluniau i gynyddu canran y dysgwyr blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg
- (c) ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i ganllawiau Llywodraeth Cymru wrth bennu'r targedau sydd i'w cynnwys mewn Cynllun awdurdod lleol

Sylwadau ategol

Cwestiwn 3 – Hoffem wybod eich barn ar:

- (a) y datganiadau newydd sydd wedi'u cynnwys yn Atodlen Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019
- (b) canllawiau statudol sy'n nodi pa wybodaeth ategol y dylai awdurdodau lleol ei chynnwys yn eu Cynllun

Sylwadau ategol




Cwestiwn 4 – Hoffem wybod eich barn ar y cynigion canlynol i:

(a) ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol adolygu eu Cynlluniau bob blwyddyn a chyflwyno adroddiad cynnydd blynyddol i Weinidogion Cymru yn seiliedig ar yr adolygiad


(b) y gofyniad i awdurdodau lleol gyflwyno eu Cynllun diwygiedig i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo o fewn 4 mis i'r adolygiad os yw'r awdurdod lleol yn barnu ei bod yn angenrheidiol diwygio'r Cynllun

Sylwadau ategol



Cwestiwn 5 – A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar rheoliadau drafft 2019 a'r canllawiau statudol?


Sylwadau ategol



Cwestiwn 6 – Hoffem wybod eich barn ar ein dull gweithredu ar gyfer yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. A oes gennych unrhyw sylwadau ar y costau a amlinellir ar gyfer yr opsiynau neu unrhyw sylwadau ar y manteision a'r anfanteision a nodwyd ar gyfer y naill opsiwn a'r llall?


Sylwadau ategol





Cwestiwn 7 – Hoffem wybod eich barn ar ein dull gweithredu ar gyfer yr Aseidiadau Effaith? Byddem yn falch o glywed eich safbwynt, yn benodol, ar yr effeithiau tebygol ar grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Sylwadau ategol



Cwestiwn 8 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r Rheoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.


Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 9 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig [neu'r opsiynau, neu'r Cynllun arfaethedig, neu'r camau gweithredu arfaethedig]:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol



Cwestiwn 10 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Sylwadau ategol

